TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

EAL Certificate in Mechanical Engineering Level 1

Yn gryno

Mae'r cwrs ymarferol hwn yn cynnig cyflwyniad rhagorol i beirianneg fecanyddol. Byddwch yn dysgu'r sgiliau a'r wybodaeth ymarferol sydd eu hangen i weithio ym maes gweithgynhyrchu mecanyddol.

Fe'i cynlluniwyd i arwain yn uniongyrchol i'r diploma lefel 2 mewn Peirianneg Fecanyddol, neu brentisiaeth.

Dyma'r cwrs i chi os...

...ydych eisiau dysgu sut i ddefnyddio peiriannau i gynhyrchu cynhyrchion

...oes gennych ddiddordeb brwd mewn peirianneg

...os ydych eisiau gyrfa neu brentisiaeth mewn peirianneg a gweithgynhyrchu.

Beth fyddaf yn ei wneud?

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Byddwch yn astudio ystod o fodiwlau gan gynnwys:

Gweithio mewn Peirianneg
Peiriannu deunyddiau peirianneg
Gwneud cydrannau gan ddefnyddio offer llaw a thechnegau ffitio
Mathemateg a gwyddoniaeth
Dylunio a gweithgynhyrchu gyda chymorth cyfrifiadur

Byddwch yn cwblhau cymysgedd o asesiadau gan gynnwys:

asesiadau ymarferol gweithdy
asesiadau theori byr
profion aml-ddewis ar-lein

Byddwch hefyd yn datblygu eich sgiliau Mathemateg, Saesneg a chyflogadwyedd.

Os nad oes gennych radd C eisoes mewn Mathemateg a/neu TGAU Saesneg, gallwch ail-sefyll y rhain.

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I gofrestru byddwch angen o leiaf 4 TGAU gradd E neu uwch, i gynnwys Mathemateg a Saesneg (neu'r Gymraeg fel iaith gyntaf)

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn hanfodol, yn ogystal â'r gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm. Dylech hefyd fod yn awyddus iawn i weithio yn y diwydiant peirianneg, cydymffurfio ag ethos y coleg a bod yn barod i wella eich lefel o bynciau academaidd.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio ar gyfer symud ymlaen i Ddiploma Lefel 2 mewn Technoleg Peirianneg.

Mae'r rolau swydd nodweddiadol y mae'r cymhwyster hwn yn arwain arnynt yn cynnwys:

Ffitiwr Mecanyddol
Peiriannydd Cynnal a Chadw
Peiriannydd Gweithgynhyrchu
Gweithredwr CNC

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Gwybodaeth Ychwanegol

Byddwch angen Offer Amddiffyn Personol, fel esgidiau bwts ac oferôls, sy'n costio tua £40. Bydd angen i chi gael eich deunydd ysgrifennu a'ch ffolderi eich hun hefyd.